**MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL ATODOL (MEMORANDWM RHIF 3)**

**Y Bil Cynllunio a Seilwaith**

1. Gosodir y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol (LCM) hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 29.2. Mae RhS 29 yn rhagnodi bod rhaid gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol, gerbron Senedd Cymru[1] os yw Bil gan Senedd y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru sy'n rhoi sylw i faterion datganoledig.

2. Cyflwynwyd y Bil Cynllunio a Seilwaith (y "Bil") yn Nhŷ'r Cyffredin, Senedd y DU ar 11 Mawrth 2025. Gosodais LCM ar 26 Mawrth 2025 ac LCM Atodol ar 15 Mai 2025. Gwnaed gwelliannau gan y Llywodraeth ar 3 Mehefin i'w hystyried yn y Cyfnod Adrodd. Cynhaliwyd Cyfnod Adrodd y Bil a'i drydydd darlleniad ar 9 a 10 Mehefin.

3. Yn dilyn hynny, cyflwynodd Llywodraeth y DU 30 o welliannau ar 3 Mehefin 2025 i'w hystyried yn y Cyfnod Adrodd.

4. Mae chwech o'r gwelliannau hyn yn gwneud darpariaeth sy'n ymwneud â materion datganoledig, a ddisgrifir ym mharagraffau 9 i 24 isod.

5. Mae'r Bil, fel y'i diwygiwyd yn y Pwyllgor Biliau Cyhoeddus i'w weld yn: Y Bil Cynllunio a Seilwaith - Biliau Seneddol - Senedd y DU

## Amcanion y Polisi

6. Amcanion polisi datganedig Llywodraeth y DU ar gyfer y Bil yw cyflymu a symleiddio'r broses ar gyfer darparu cartrefi a seilwaith critigol newydd, cefnogi i gyrraedd cerrig milltir Cynllun Newid y llywodraeth o adeiladu 1.5 miliwn o gartrefi diogel a gweddus yn Lloegr a chyflymu 150 o benderfyniadau cynllunio ar brosiectau seilwaith economaidd mawr erbyn diwedd Senedd hon y DU. Bydd hefyd yn helpu i wireddu targed Pŵer Glân 2030 y llywodraeth trwy sicrhau bod prosiectau ynni glân yn cael eu hadeiladu cyn gynted ag y medrir. Er mwyn cyflawni hyn, bydd y Bil yn:

   a. Darparu ar gyfer proses gyflymach a mwy pendant ar gyfer cydsynio prosiectau seilwaith critigol a chryfhau'r fframwaith polisi o amgylch Datganiadau Polisi Cenedlaethol.

   b. Rhoi system fwy effeithlon a rhagweladwy ar waith ar gyfer prosiectau seilwaith ynni, gan gynnwys:
      i. Diwygiadau i ddiweddaru'r broses ar gyfer cysylltu â'r grid trydan;

[1] Noder, yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru, rydym yn cyfeirio at y ddeddfwrfa yng Nghymru fel "Senedd Cymru" y tro cyntaf ac fel "y Senedd" ar ôl hynny oni fydd y cyd-destun yn nodi fel arall.

ii. Sefydlu cynllun trothwyon uchaf ac isaf newydd i ddefnyddio adnoddau storio trydan cyfnod hir;
iii. Diwygio'r drefn ar gyfer cydsynio seilwaith trydan yn yr Alban, er mwyn lleihau agweddau aneffeithiol ar y system a mabwysiadu arferion gorau;
iv. Sefydlu cynllun gostwng biliau i'r rheini sy'n byw agosaf at seilwaith newydd trawsyrru trydan; a
v. Diweddaru proses ar gyfer trawsyrru trydan o'r môr, trwy estyn cyfnod cymal comisiynu'r cynhyrchydd.

c. Symleiddio'r drefn ar gyfer cynnal prosiectau seilwaith trafnidiaeth a'i gwneud yn fwy effeithlon, gan gynnwys:

i. Newid y broses o gymeradwyo gwaith stryd er mwyn gallu gosod pwyntiau gwefru cerbydau trydan yn gyflymach;
ii. Diwygiadau amrywiol i Ddeddf Trafnidiaeth a Gwaith 1992 a Deddf Priffyrdd 1980 i symleiddio prosesau a chyflymu prosiectau; ac
iii. Adennill costau Gorchmynion Adolygu Harbyrau yn well.

d. Cyflwyno dull mwy strategol o adfer natur mewn perthynas â datblygu, gan alluogi datblygwyr i ariannu'r gwaith adfer yn fwy effeithlon trwy Gronfa Adfer Natur newydd, tra'n sicrhau canlyniadau gwell i'r amgylchedd.

e. Gwneud penderfyniadau'n well a gwella sicrwydd gan wella capasiti awdurdodau cynllunio lleol trwy eu galluogi i adennill eu costau trwy ffioedd cynllunio.

f. Rhyddhau tir ar gyfer buddsoddiadau mawr, a sicrhau gwerth i'r cyhoedd, trwy ddiwygio'r broses gorchmynion prynu gorfodol a rheolau iawndal.

g. Cryfhau pwerau corfforaethau datblygu i ddarparu seilwaith, gan gynnwys trafnidiaeth, ac egluro a diweddaru cylchoedd gwaith ac amcanion corfforaethau datblygu.

h. Darparu ar gyfer cyflwyno system gynllunio strategol yn Lloegr.

**Crynodeb o'r Bil**

7. Darparwyd crynodeb o'r Bil yn yr LCM cyntaf a osodwyd ar 26 Mawrth 2025, sy'n parhau'n gywir.

**Y diweddaraf am y sefyllfa ers cyhoeddi’r SLCM ar 28 Mai.**

8. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU wedi bod mewn cysylltiad rheolaidd yn ystod datblygiad y Bil ac mae'r cysylltu hwnnw'n digwydd ar lefelau Gweinidogion a swyddogion pan fo angen. Mae'r ymgysylltu hwn wedi arwain at gyflwyno'r gwelliannau a ddisgrifir yn yr SLCM hwn gan y Llywodraeth.

**Darpariaethau a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU i'r Bil i'w hystyried yn y Cyfnod Adrodd y mae angen cydsyniad ar eu cyfer:**

9. Mae Llywodraeth Cymru wedi asesu'r gwelliannau canlynol ac yn barnu bod angen cydsyniad deddfwriaethol y Senedd arnynt:

   - Gov 93 sy'n diwygio cymal 31 (cymal 28 gynt) "Procedure for certain orders and schemes"
   - Gov 94 sy'n diwygio cymal 41 (cymal 38 gynt) "Deemed consent under marine licence"
   - Gov 95 sy'n diwygio cymal 41 ac sy'n ganlyniadol i Gov 97
   - Gov 96 sy'n diwygio cymal 41 ac sy'n ganlyniadol i Gov 97
   - Gov 97 sy'n diwygio cymal 41 ac sy'n ganlyniadol i Gov 94
   - Gov 98 sy'n diwygio cymal 41 ac sy'n ganlyniadol i Gov 97

10. Yn dilyn dadansoddi'r gwelliannau newydd hyn, credaf fod angen yr LCM atodol hwn am y rheswm a nodir paragraffau 28 i 30 isod.

<u>Cymal 93 - Procedure for certain orders and schemes</u>

11. Mae'r diwygiad hwn yn diwygio Cymal 31 *"Procedure for certain orders and schemes".*

12. Mae'n ymwneud ag adran 326 o Ddeddf Priffyrdd 1980, sy'n dirymu a newid cynlluniau a gorchmynion o dan y Ddeddf. Mae hefyd yn caniatáu i orchmynion adran 10 a chynlluniau adran 16 a 106(3) gael eu diwygio a'u dirymu gan orchymyn neu gynllun dilynol. Cynigir darpariaeth ar wahân yng Nghymru o dan adran 2 o'r Bil Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru). Mae gwelliant Gov 93 yn adolygu'r gwelliant gwreiddiol i sicrhau bod y sefyllfa yng Nghymru yn cael ei chadw ac yn benodol na fydd Gwelliant Gov 93 yn effeithio ar y gwelliannau a gynigir yn y Bil Cymreig ar wahân.

<u>Adran 94 – Deemed consent under marine licence</u>

13. Mae'r diwygiad hwn yn diwygio rhan o Gymal 41 "Deemed consent under marine licence"

14. Fel y'i cyflwynwyd, mae cymal 41 (cymal 38 gynt) yn mewnosod adran 19A newydd i Ddeddf Trafnidiaeth a Gwaith 1992 ("TWA 1992") ac mae'n rhoi'r pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru gynnwys o fewn Gorchymyn TWA (a wnaed o dan adrannau 1 neu 3 o'r Ddeddf honno) drwydded forol dybiedig o dan Ran 4 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009, sy'n awdurdodi'r gweithgareddau a bennir, a'r amodau y maent yn ddarostyngedig iddynt, yn y gorchymyn (gweler adran newydd 19A(1) fel y'i cyflwynwyd).

15. Mae adran newydd 19A(2) (fel y'i cyflwynwyd) (a) yn rhagnodi bod yn rhaid i'r gweithgaredd a wneir o dan adran 19A(1) newydd ddigwydd yn un neu ragor o'r ardaloedd y gall trwydded forol dybiedig fod yn gymwys ynddynt (a bennir yn is-adran (3)) neu (b) gweithgaredd y mae Gweinidogion Cymru yn awdurdod trwyddedu priodol ar ei gyfer.

16. Roedd yr ardaloedd a bennir yn is-adran newydd 19A(3)(c) i (e) lle caiff yr Ysgrifennydd Gwladol roi trwydded forol dybiedig yn cynnwys y Parth Ynni Adnewyddadwy a'r parth economaidd neilltuedig (sy'n cynnwys dyfroedd môr Cymru). Mae'r rhain yn cynnwys ardaloedd y mae Gweinidogion Cymru yn awdurdod trwyddedu priodol ynddynt o dan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009.

17. Roedd geiriad is-adran (3) yn creu ansicrwydd ynghylch y cais arfaethedig yn y môr mawr a sut roedd hynny'n rhyngweithio â swyddogaethau Gweinidogion Cymru o roi trwyddedau morol.

18. Mae gwelliant Gov 94 yn hepgor y testun yng nghymal 41 o'i ddechrau hyd at ddiwedd llinell 19 ar dudalen 55 o'r Bil (fel y'i diwygiwyd yng nghyfnod y Pwyllgor Cyhoeddus) ac yn mewnosod testun newydd yn ei le. Roddir drafft newydd yn lle is-adrannau (1) i (4) o adran 19A a chyflwynir is-adran (4A) newydd.

19. Mae effaith Gwelliant Gov 94 yn ailweithio cymal 41 a'r ddarpariaeth ar gyfer trwyddedau morol tybiedig mewn Gorchmynion TWA fel na chaiff Gweinidogion Cymru awdurdodi ond gweithgaredd y maent yn gyfrifol amdano o dan y ddeddfwriaeth trwyddedu morol (gweler Rhan 4 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009. Gwna'r un peth mewn perthynas â'r Ysgrifennydd Gwladol. Mae'r gwelliannau i'r adran 19A newydd yn esbonio mai cyfrifoldeb Gweinidogion Cymru, fel yr awdurdod trwyddedu priodol, yw tybio trwydded forol yn nyfroedd môr mawr Cymru.

20. Er cyflawnder, gallaf gadarnhau nad yw Gwelliant Gov 94 yn effeithio ar adran newydd 19A(5) a (6).

<u>Gov 95</u>

21. Mae gwelliant Gov 95 yn ganlyniadol i welliant Gov 97. Mae'r gwelliant hwn yn hepgor "Marine and Coastal Access Act" ac yn mewnosod "MCAA 2009".

<u>Gov 96</u>

22. Mae gwelliant Gov 96 yn ganlyniadol i welliant Gov 97. Mae'r gwelliant hwn yn hepgor "Marine and Coastal Access Act" ac yn mewnosod "MCAA 2009".

Gov 97

23. Mae gwelliant Gov 97 yn diwygio adran 19A(5) newydd trwy ychwanegu diffiniad newydd o "the MCAA 2009" at yr adran honno. Mae Gov 97 yn ganlyniadol i Gov 94 sy'n cyfeirio at y talfyriad "MCAA 2009" yn adran 19A(4A) newydd. Mae hefyd yn ychwanegu diffiniad o "marine licence" sy'n derm a ddefnyddir drwy'r adran 19A newydd ac sy'n ganlyniadol i welliant Gov 94.

Gov 98

24. Mae gwelliant Gov 98 yn ganlyniadol i welliant Gov 97. Mae'r gwelliant hwn yn hepgor "Marine and Coastal Access Act" ac yn mewnosod "MCAA 2009".

**Barn Llywodraeth y DU ar yr angen am gydsyniad**

25. Ysgrifennodd Mathew Pennycook AS, y Gweinidog Gwladol dros Dai a Chynllunio, ataf ar 3 Mehefin 2025 i roi gwybod am farn Llywodraeth y DU ynghylch yr angen am gysyniad y Senedd mewn perthynas â gwelliannau'r Cyfnod Adrodd. Mae Llywodraeth y DU o'r farn bod angen memorandwm cydsyniad deddfwriaethol ar y diwygiadau canlynol gan y llywodraeth:

- Gov 93, Cymal 31 – diwygiadau i Ddeddf Priffyrdd 1980
- Gov 94 Cymal 41 diwygiadau i Ddeddf Trafnidiaeth a Gwaith 1992

26. Rwy'n cytuno â dadansoddiad Llywodraeth y DU o ddatganoli mewn perthynas â'r diwygiadau hyn.

27. Rwyf hefyd o'r farn bod angen cydsyniad y Senedd ar Welliant Gov 95 i Gov 98 hefyd. Hynny am ei fod yn ganlyniadol i Welliant Gov 94. Yr wyf wedi ysgrifennu at Matthew Pennycook AS ar y mater hwn.

**Rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru yn y Bil Cynllunio a Seilwaith.**

Gov 93

28. Mae angen cynnwys y darpariaethau ar gyfer Cymru i helpu i fynd i'r afael â mater a nodwyd yn ystod proses y Bil. Yn y bôn, drwy ddileu'r gofyniad bod gorchmynion adran 10 a chynlluniau adran 16/106(3) yn cael eu gwneud drwy Offeryn Statudol, collodd Gweinidogion Cymru y gallu i'w diwygio a'u dirymu. Drwy ddiwygio adran 326, mae'r mater hwn wedi'i gywiro, ac mae Gweinidogion Cymru yn cadw'r gallu i wneud hynny.

Gov 94

29. Yn yr LCM a osodwyd ar 26 Mawrth, nodais, er fy mod yn cefnogi'r ddarpariaeth i roi trwydded forol o dan gymal 38 (cymal 41 bellach),

ceisiais sicrwydd gan Lywodraeth y DU nad oedd unrhyw ganlyniad anfwriadol yn rhanbarth y môr mawr. Mae'r gwelliant hwn yn rhoi eglurder ynghylch ar gyfer ble yn ddaearyddol y caiff yr Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru roi trwydded forol dybiedig, ac mae'r gwelliant yn mynd i'r afael â'm pryderon. Felly, rwy'n cefnogi'r gwelliant.

<u>Gov 95 i Gov 98</u>

30. Er bod y gwelliannau hyn yn dechnegol eu natur, maent yn ganlyniadol i Welliant Gov 94. Rwy'n cefnogi'r gwelliannau hyn.

**Goblygiadau ariannol**

31. Mae'r asesiad ariannol o'r Bil yn dod i'r casgliad, 'dros y cyfnod arfarnu deng mlynedd, yn unol â gwerthoedd heddiw (prisiau 2025, blwyddyn sylfaen 2026), amcangyfrifir bod cyfanswm o £5.2 biliwn o fuddion yn sgil y Bil, gyda chyfanswm o £2.0 biliwn o gostau. Mae hyn yn golygu effaith gadarnhaol gyffredinol ar gymdeithas sy'n cyfateb i £3.2 biliwn'.

**Casgliad**

32. Barn Llywodraeth Cymru yw ei bod yn briodol delio â'r darpariaethau hyn o fewn y Bil DU hwn. Mae'r gwelliannau technegol hyn yn mynd i'r afael â'r materion a godwyd o'r blaen i sicrhau bod y pwerau'n gweithio i Gymru.

**Rebecca Evans AS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio**
**17 Mehefin 2025**